Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Neat Sweet Feet, Penarth

Dyddiad yr arolygiad: 09 Hydref 2023

Dyddiad cyhoeddi: 09 Ionawr 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-83577-362-8



© Hawlfraint y Goron 2024

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'r arolygiad ........ 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ........ 8

- Ansawdd Profiad y Claf ........ 8
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 11
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 13

4. Y camau nesaf ........ 14

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 15

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith ........ 16

Atodiad C – Cynllun gwella ........ 17

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Neat Sweet Feet ar 09 Hydref 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o bedwar holiadur. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Roedd yn amlwg bod y staff yn Neat Sweet Feet yn ymrwymedig i ddarparu safon dda o ofal i'r cleifion, mewn amgylchedd croesawgar sydd mewn cyflwr da. Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol am y gwasanaeth a'r triniaethau roeddent wedi'u cael. Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC fod y gwasanaeth yn 'dda iawn'.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y lleoliad yn lân ac yn daclus ac wedi'i gynnal a'i gadw i safon uchel
- Roedd y staff yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth proffesiynol a phrofiad cadarnhaol i'w gleifion
- Roedd gan y cleifion afael ar wybodaeth eang a chyfredol am y gwasanaethau a ddarperir, ar wefan y lleoliad ac ar y daflen wybodaeth i gleifion.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Roedd yn amlwg bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd trefniadau addas ar waith i gynnal a chadw'r cyfarpar laser / goleuni pwls dwys (IPL) ac i sicrhau ei fod yn parhau'n ddiogel. Hefyd gwelsom fod asesiadau risg cynhwysfawr ar waith ar gyfer rheoli heintiau a diogelwch tân. Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu storio'n ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen i'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r diffoddwr tân gael ei wasanaethu'n flynyddol a darparu tystiolaeth o'r gwasanaeth hwn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr ystafell drin yn lân, yn cynnwys cyfarpar addas ac yn addas at y diben
- Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu storio'n ddiogel ac yn cael eu cadw i safon uchel.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yn amlwg bod y ddau unigolyn sy'n gweithio yn Neat Sweet Feet yn meddu ar y sgiliau priodol a'r wybodaeth berthnasol i ddarparu triniaeth ddiogel i'r cleifion. Gwelsom dystiolaeth bod y ddau wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol i allu darparu triniaethau laser yn ddiogel ac yn effeithiol. Roedd an y lleoliad hefyd gofrestr gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau ar waith a oedd yn gyfredol ac yn cael ei hadolygu'n flynyddol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y rheolwr cofrestredig a'r aelod o'r staff sy'n gweithio yn y lleoliad wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol diweddaraf.
- Roedd polisi cwyno cyfredol ar waith ac roedd yn cynnwys manylion cyswllt AGIC
- Gwelsom dystiolaeth fod arfarniadau blynyddol yn cael eu cynnal a bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith ar gyfer y rheolwr cofrestredig a'r aelod o'r staff.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Cawsom gyfanswm o bedwar holiadur wedi'u cwblhau. Roedd dau o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers dros ddau fis neu lai. Roedd y ddau holiadur arall wedi eu cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn gleifion am flwyddyn neu fwy.

**Diogelu a gwella iechyd**
Gwelsom dystiolaeth o gleifion yn cwblhau hanes meddygol cynhwysfawr yn ystod eu hymgynghoriad cychwynnol. Cadarnhaodd y staff bod y ffurflen hanes meddygol yn cael ei hadolygu gyda'r cleifion ar ddechrau pob apwyntiad. Dywedwyd wrthym fod unrhyw newidiadau yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion ac y caiff y ffurflenni eu diweddaru'n unol â hynny.

Dywedodd y pedwar ymatebydd bod eu hanes meddygol wedi cael ei wirio cyn cael triniaeth. Cadarnhaodd tri ohonynt eu bod wedi cael prawf croen cyn cael triniaeth newydd. Ni wnaeth yr ymatebydd arall ateb yr adran hon.

**Urddas a pharch**
Clinig podiatreg yw Neat Sweet Feet sydd hefyd yn cynnig triniaeth laser fel meddyginiaethau lleddfu poen datblygedig. Roedd ystafell ddynodedig er mwyn i'r staff gynnal ymgyngoriadau laser a thriniaethau a gellir cloi'r ystafell, gan atal mynediad heb awdurdod. Dywedodd y staff wrthym pe byddai angen hebryngwr ar glaf, y byddent yn gallu mynychu'r apwyntiad ac y byddai sbectolau diogelwch yn cael eu darparu.

Roedd pob un o rhai a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno bod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch, ac yn teimlo bod y staff wedi gwrando ar eu cwestiynau ac wedi eu hateb.

**Cyfathrebu'n effeithiol**
Gwelsom dystiolaeth o wybodaeth eang ar gael i'r cleifion am y triniaethau a ddarperir yn y lleoliad. Gwelwyd y wybodaeth ar wefan y lleoliad, yn y daflen wybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben.

Dim ond dros y ffôn neu drwy ymweld â'r practis wyneb yn wyneb y gellir gwneud apwyntiadau yn Neat Sweet Feet.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oes unrhyw gleifion sy'n well ganddynt gyfathrebu'n Gymraeg ar hyn o bryd. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym y byddai'r staff yn cael dogfennau wedi'u cyfieithu os byddent yn cael cais i wneud hynny.

**Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion**

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig bod y cleifion yn cael yr holl wybodaeth berthnasol yn ystod eu hymgynghoriad. Roedd pob un o ffeiliau'r cleifion y gwnaethom eu hadolygu yn cynnwys ffurflenni ymgynghori wedi'u cwblhau a gwelsom dystiolaeth o gleifion yn llofnodi i gadarnhau eu bod yn cydsynio i driniaeth. Hefyd gwnaethom gadarnhau bod cydsyniad yn cael ei geisio cyn y driniaeth gychwynnol ac mewn apwyntiadau dilynol.

Dywedodd pob un o ymatebwyr yr holiadur wrthym eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael iddynt, yn ogystal â risgiau a buddiannau'r opsiynau hyn. Cadarnhaodd dau glaf sydd wedi cwblhau holiadur eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal digonol er mwyn hwyluso'r broses wella. Ni wnaeth y ddau glaf a oedd yn weddill ateb y cwestiwn hwn.

**Cynllunio a darparu gofal**

Gwelsom dystiolaeth o gofrestr triniaethau ar waith, a oedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac yn gyfredol. Gwnaeth ein hadolygiad o gofnodion cleifion hefyd gadarnhau bod y rhain wedi cael eu cadw i safon dda.

**Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Roedd y practis yn cynnig mynediad llawn i bobl anabl. Roedd hyn yn cynnwys toiled anabl a mynediad ar y llawr gwaelod i'r ystafell triniaeth laser, yn ogystal â'r ystafelloedd podiatreg. Hefyd roedd parcio ar gael ar y stryd o amgylch y lleoliad.

Dywedwyd wrthym nad oes unrhyw gleifion trawsryweddol yn mynychu'r lleoliad ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roedd yn amlwg o'r sgyrsiau â'r staff eu bod yn ymwybodol o bwysigrwydd defnyddio rhagenwau ac enwau a ffefrir pe byddai ganddynt gleifion trawsryweddol.

Yn ystod ein harolygiad, nid oedd gan y lleoliad bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar waith. Fodd bynnag, rydym wedi gweld tystiolaeth bod polisi perthnasol wedi'i ddatblygu a'i roi ar waith yn y lleoliad.

**Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y gallai cleifion roi adborth wyneb yn wyneb yn y lleoliad a thrwy adolygiadau google.  Gwnaethom gadarnhau bod y canllaw i gleifion yn annog yr unigolion i roi adborth ar ôl cael triniaethau.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

**Rheoli risg ac iechyd a diogelwch**
Gwnaethom adolygu tystiolaeth o brofion offer cludadwy yn cael eu cynnal yn y lleoliad. Darparodd y staff dystysgrif diogelwch nwy cyfredol ar gyfer y safle. Yn ystod ein hymweliad, nid oedd y staff yn gallu darparu tystiolaeth o wiriad gwifrau bob pum mlynedd yn cael ei gwblhau. Fodd bynnag, yn syth ar ôl ein hymweliad, anfonodd y rheolwr cofrestredig dystiolaeth fod y gwiriad wedi cael ei gyflawni.

Gwnaethom adolygu'r trefniadau ar gyfer diogelwch tân. Roedd arwydd clir yn dangos lle roedd yr allanfa dân ac roedd gan y synwyryddion mwg wedi'u gosod ym mhob rhan o'r lleoliad. Roedd diffoddwyr tân CO2 yn yr ystafell staff, fodd bynnag ni allai'r rheolwr cofrestredig ddarparu cofnod bod y diffoddwr tân wedi cael ei wasanaethu.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r diffoddwr gael ei wasanaethu'n flynyddol a darparu tystiolaeth i ni o'r gwasanaeth cyn gynted â phosibl.**

Gwnaeth ein hadolygiad o gofnodion hyfforddiant y staff dynnu sylw at y ffaith bod hyfforddiant diogelwch tân y ddau aelod o'r staff wedi mynd heibio. Fodd bynnag, yn fuan ar ôl yr arolygiad, cawsom dystysgrifau hyfforddiant diogelwch tân cyfredol ar gyfer y ddau aelod o'r staff.

Roedd pecyn cymorth cyntaf brys ar gael, fodd bynnag roedd y cynnwys wedi mynd heibio'r dyddiad defnyddio yn 2021. Ers hynny rydym wedi cael tystiolaeth ffotograffig o becyn cymorth cyntaf newydd i'w ddefnyddio pe bai anafiadau'n digwydd.

Gwelsom dystiolaeth bod y ddau aelod o'r staff yn Neat Sweet Feet wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf yn ddiweddar.

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**
Roedd y lleoliad i'w weld yn lân ac yn daclus. Roedd gan y practis hefyd bolisi atal a rheoli heintiau cynhwysfawr ar waith a oedd yn cynnwys hylendid dwylo, dihalogi cyfarpar a glanhau'r amgylchedd. Er bod y staff yn gallu rhoi disgrifiad manwl o'r amserlen lanhau ar gyfer yr ystafell triniaeth laser, nid oedd amserlen bapur i'w llenwi pan roedd y gwaith glanhau'n cael ei gwblhau. Ers ein hymweliad, rydym wedi cael tystiolaeth o amserlen lahau ar waith, sy'n nodi pob maes i'w lanhau a'i lofnodi unwaith mae wedi'i gwblhau.

Roedd pob claf a oedd gwblhaodd holiaduron yn teimlo bod y mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn a bod y lleoliad yn 'lân iawn'.

**Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**
Roedd gan y lleoliad bolisi diogelu cynhwysfawr ar waith, a oedd yn gyfredol ac yn cynnwys manylion y tîm diogelu lleol. Roedd y ddogfen hefyd yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn pe byddai ganddynt bryder diogelu.

Roedd y ddau aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu oedolion a phlant.

**Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**
Gwnaethom adolygu'r ddogfennaeth a oedd yn cadarnhau bod gan y peiriant dystysgrif gwasanaeth a graddnodi flynyddol a oedd yn gyfredol.

Gwnaethom edrych ar y contract a oedd ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau (LPA) a rheolau lleol yn manylu sut i ddefnyddio'r peiriannau'n ddiogel. Roedd y rheolau lleol wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau a'u llofnodi gan y gweithredwr laser.

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol**
Gwnaethom edrych ar y sbectolau amddiffynnol a ddarperir i'r cleientiaid yn ystod apwyntiadau. Roedd pob pâr mewn cyflwr da ac yn gyson â'r rheolau lleol.

Roedd un ystafell yn cael ei defnyddio ar gyfer triniaethau laser yn y lleoliad. Roedd arwyddion priodol ar ddrws yr ystafell a gellir cloi'r drws o'r tu fewn. Hefyd, gwelsom fysellbad y tu allan i'r drws, gan atal unrhyw un heb awdurdod rhag cael mynediad, pan nad yw triniaethau'n cael eu darparu.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym am y gwriaidau cyn triniaeth a gyflawnir â phob cleient. Cynhelir asesiad math croen â phob claf cyn triniaeth a chwblheir profion croen yn unol â hynny. Cofnodwyd canlyniad y ddau wiriad yng nghofnodion y cleifion.

**Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**
Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod yn trafod adborth yn rheolaidd gydag aelodau eraill o'r staff sy'n gweithio yn y practis. Ers darparu'r triniaethau laser, mae'r adborth rydym wedi ei gael wedi bod yn gadarnhaol.

**Rheoli cofnodion**
Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw'n electronig, mewn ffolder â chyfrinair, ac mewn ffeiliau papur, wedi'u storio'n ddiogel mewn cabinet dan glo. Gwnaethom edrych ar bum sampl o gofnodion cleifion gan nodi eu bod o safon ddigonol.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

**Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd**
Mae'r rheolwr cofrestredig ac aelod ychwanegol o'r staff yn goruchwylio Neat Sweet Feet, ac mae'r ddau wedi'u cofrestru i roi triniaethau laser yn y lleoliad.

Gwelsom dystiolaeth fod cofrestr o bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith. Roedd pob un o'r polisïau a welwyd yn gyfredol ac wedi'u llofnodi gan y ddau aelod o'r staff.

**Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**
Gwnaethom gadarnhau â'r rheolwr cofrestredig na roddwyd gwybod am unrhyw bryderon neu gwynion ers i'r busnes gael ei sefydlu.

Roedd gweithdrefn gwyno gynhwysfawr ar waith, a oedd i'w gweld yn glir yn yr ardal aros. Roedd y weithdrefn yn gyfredol ac yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer AGIC.

**Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**
Gwelsom dystiolaeth fod y ddau aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant y gweithgynhyrchwr ar ddefnyddio'r peiriannau laser.

Dangosodd y staff dystiolaeth o arfarniadau blynyddol a chawsom wybod bod proses sefydlu ar waith ar gyfer aelodau newydd o'r staff.

**Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**
Cadarnhawyd gennym fod gan y ddau aelod o'r staff wiriad dilys gan y Gwasanaethau Datgelu a Gwahardd (DBS).

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y gwiriadau cyn cyflogaeth a gynhelir ar gyfer cyflogeion newydd. Yn ogystal â gwiriadau DBS, gofynnir i bob ymgeisydd ddarparu geirdaon cyn dechrau gweithio yn y practis.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae’n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi’n glir sut yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i’r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a’r cyhoedd yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw’r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o’r sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| **Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol** | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Neat Sweet Feet

## Dyddiad yr arolygiad: 09/10/2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw welliannau | | | | |
| | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth: Neat Sweet Feet**

**Dyddiad yr arolygiad: 09/10/2023**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Mae'n ofynnol gennym i'r rheolwr drefnu i'r diffoddwr tân gael ei wasanaethu a darparu tystiolaeth o'r gwasanaeth cyn gynted â phosibl.** | 22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch, 4. Cynllunio ar gyfer argyfyngau Amgylchedd | Rydym wrthi'n trefnu apwyntiad gyda PHS er mwyn iddynt wasanaethu ein diffoddwr tân. | Sian Lee<br><br>(Rheolwr Cofrestredig) | Wedi cael gwybod bod yr argaeledd ar gyfer apwyntiad yn y tair wythnos nesaf. |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau): Sian Lee**

**Teitl swydd: Cyfarwyddwr/Perchennog/Podiatrydd (Rheolwr cofrestredig)**

**Dyddiad: 1/12/2023**